# Ffarwel 2025



Bu’r flwyddyn ddiwethaf yn llawn, yn gyfoethog, yn heriol ac yn hynod galonogol. Trwy arddangosfeydd, gweithdai, murluniau, sgyrsiau a sawl gŵyl, rwyf wedi gweld unwaith eto sut mae creadigrwydd yn agor drysau ar gyfer sgyrsiau am yr Efengyl — yn enwedig gyda phobl na fyddai byth yn mynd i wasanaeth eglwys traddodiadol.

Dyma rai uchafbwyntiau — cliciwch ar bob prosiect i gael mwy o wybodaeth a lluniau, neu ewch i **www.eoscollective.art** i weld mwy o brosiectau sydd wedi digwydd.



Sbardunodd **Llwybr Geni’r Nadolig** a gafodd ei arddangos gan Eglwys Efengylaidd Eglwysbach (2024) ac Eglwys Tanycoed, Llanrug (2025) sgyrsiau am wir ystyr y Nadolig. Yn Eglwys Efengylaidd Amwythig, arweiniodd **arddangosfa gelf ddigidol ar thema carolau**, ynghyd â chrefftau Nadoligaidd a chaffi, at lawer o sgyrsiau naturiol am ffydd. Yn fy eglwys yng Nghaerdydd, bûm yn helpu i ryddhau **fideos Plygain newydd** yn Gymraeg ar-lein, a gweddïaf y bydd yr hadau digidol hyn yn parhau i gyrraedd pobl ar ôl Dolig.



O Chwefror tan Mai, bûm yn cyd-arwain **Arddangosfa Agored HADAU** yng Nghaerdydd gyda Eglwys Urban Crofters a Morphe Arts Cymru, ar y thema “Gorffennwyd?”. Daeth dros 200 o bobl i’r noson agoriadol, gan gynnwys llawer o artistiaid di-gred a deimlodd eu bod yn cael eu gwerthfawrogi’n fawr. Teithiodd yr arddangosfa yma i **Eglwys Efengylaidd Rhydaman** yn Mehefin, lle daeth yn wythnos genhadol lawn i’r gymuned gyda gweithgareddau i ysgolion, gweithdai, a digwyddiadau ieuenctid a theuluol. Gweddïwch, os gwelwch yn dda, y bydd yr hadau a blannwyd drwy’r cysylltiadau a wnaed yn dwyn ffrwyth.



Yn Mawrth, cynhaliwyd yr **arddangosfa “Yn y Dechreuad” ym Mhwllheli** gyda Eglwysi Presbyteraidd Cymraeg Pen Llŷn. Bu ysgolion, grwpiau ieuenctid a chlybiau pobl hŷn yn edrych ar y gwirionedd am Dduw fel Creawdwr. Croesawyd y cyhoedd i’r arddangosfa, darlith gwyddoniaeth a ffydd, a chafwyd llawer o sgyrsiau buddiol. Teithiodd yr arddangosfa i **Eglwysbach**, Conwy yn Mehefin, gan gryfhau partneriaeth eglwysig a denu ymateb cryf gan bobl leol.

Uchafbwynt arall roedd creu **murlun cymunedol gydag Eglwys Bedyddwyr Caersalem** yng Nghaernarfon, rhoi sgwrs efengylaidd “Y Pasg drwy Gelf” yn Eglwys Bedyddwyr Park, Merthyr, a chyd-gerdded gydag artistiaid drwy raglen ***All Create*** yn **Parc Arts**.



Yn ystod Gŵyl y Gelli Gandryll, bûm yn helpu Eglwys Efengylaidd Bethesda i wneud **Llwybr Narnia**, gan ddefnyddio stori a digwyddiadau i agor sgyrsiau am ffydd. Yn Gorffennaf, croesawyd tua 500 o ymwelwyr i **“Beth yw dy Greadigrwydd?” yn Llanfairpwll**, gan feithrin cysylltiadau cryf rhwng eglwysi a’r gymuned. Cafwyd ymgyrchoedd llwyddiannus dros yr haf yn yr **Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam** ar stondin MEC, a Rali Stêm Amwythig. Daeth y flwyddyn i ben gyda churadu **Arddangosfa Galwad Agored Gŵyl Morfydd Owen** ym Mhontypridd.



Rwy’n hynod ddiolchgar am yr holl artistiaid a safodd ochr yn ochr â mi yn y gwaith, gan gynnwys aelodau **Morphe Arts Cymru**, yn enwedig **Lio Cheung**, a helpodd gyda llawer o’r prosiectau hyn drwy **Raglen Eglwysi’n Tyfu WLF**.

Roedd llawer o’r prosiectau hyn yn cynnwys ysgolion, artistiaid lleol, grwpiau ieuenctid a phobl hŷn — pobl na fyddent fel arfer yn cysylltu ag eglwysi. Dro ar ôl tro, profwyd bod creadigrwydd yn bont ar gyfer gwrando, lletygarwch, a sgyrsiau am ffydd.








## Pobl, nid Prosiectau yn Unig

Yn ogystal â'r digwyddiadau, mae amser gyda unigolion yn parhau i fod yn ran bwysig o'r waith. Rwyf wedi cael y fraint o gerdded ochr yn ochr ag artistiaid lleol, rhai sydd wedi'u brifo ac yn cael trafferth ymddiried yn yr eglwys, gan gynnig clust i wrando, caredigrwydd, a ffrind Cristnogol ffyddlon. Mae astudiaethau Beibl un-i-un gyda merched hefyd yn werthfawr wrth inni annog ein gilydd i dyfu mewn ffydd a doethineb. Mae'r gwaith araf o feithrin perthynas yr un mor bwysig â'r digwyddiadau cyhoeddus.

## Hyfforddi ac Arfogi Eraill

Rhan allweddol o'm galwad yw arfogi eraill mewn efengylu creadigol, gan helpu eglwysi ac unigolion i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio creadigrwydd yn eu hardaloedd eu hunain. Rwyf wedi siarad mewn cynadleddau a digwyddiadau hyfforddi, mentora artistiaid, cyfrannu at gynllunio cynadleddau, ac rwy'n parhau i ddatblygu adnoddau drwy **wefan Cydweithfa EOS**.

## Cefnogaeth, Atebolrwydd a Gofal

Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth fy eglwys gartref, **Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd**, lle rwy'n gweithio o dan ofal ac atebolrwydd yr henuriaid a'r ymddiriedolwyr. Rwyf hefyd yn elwa'n fawr o mentoriaid, ffrindiau gweddigar, a rhwydweithiau fel **Morphe Arts**, **WLF** ac **EMW**.

Un ateb clir i weddi eleni oedd i fy llais ddod yn ôl yn llwyr, ar ôl ei golli am ddwy flynedd. Diolch o galon i bawb a weddïodd.

## Heriau Presennol — Gweddïwch Os Gwelwch yn Dda

Fel bob tro, mae heriau'n codi, ac rwy'n gwerthfawrogi eich gweddïau:

- **Rheoli amser:** Gall brosiectau mawr sugno egni. Mae arweinwyr fy eglwys wedi'm hannog i orffwys yn iawn rhwng digwyddiadau. Gweddïwch am ddoethineb a disgyblaeth yn hyn.
- **Gofod Stiwdio:** Bu'n rhaid imi adael fy stiwdio gelf yn sydyn yr haf yma, ac rwy'n dal i chwilio am stiwdio fforddiadwy yng Nghaerdydd. Maent yn brin a drud. Gweddïwch am ateb addas a chynaliadwy.
- **Cyllid:** Ar gyfer y flwyddyn academaidd Medi 2025 – Medi 2026, dim ond **£247** sydd angen imi ei godi eto i dalu costau cyflog a gweinidogaeth. Rwy'n hynod ddiolchgar am roddion unigol gan eglwysi ac unigolion, ond mae cefnogaeth barhaus yn hanfodol. Ar gyfer Medi 2026 – Medi 2027, rwy'n ceisio codi £25,926.

**Gweddïwch,** os gwelwch yn dda, y bydd yr hadau a blannwyd eleni ledled Cymru yn dwyn ffrwyth parhaol, y bydd y rhai a glywodd yr Efengyl yn parhau i geisio Iesu, ac y bydd eglwysi'n tyfu mewn hyder i efengylu ac mewn cariad tuag at eu cymunedau.

Diolch eto am sefyll gyda mi — mewn gweddi, anogaeth a haelioni. Mae'r gwaith yma wir yn rhywbeth rydyn ni i gyd yn ei wneud gyda'n gilydd.
**Gyda diolchgarwch a chariad,**
**Lois Adams**
*Efengylydd Creadigol Cymru ac Artist Cymunedol*

**O.N. Isod mae dyddiadur o'r hyn y byddaf yn ei wneud yn ystod y chwe mis nesaf, a byddwn yn ddiolchgar am bob cefnogaeth mewn gweddi a chwmni!**

# Helo 2026!

- **Cyngerdd "Encounters with Jesus".** Cyngerdd teithiol newydd gan Abi Askew, yn cynnwys 10 cân sy'n adrodd straeon pobl a gyfarfu â Iesu yn yr Efengylau. Cyngerdd o safon uchel ac yn ddigwyddiad y gall eglwysi wahodd yn hawdd. Mae deunydd hyrwyddo, enghreifftiau o ganeuon a manylion archebu ar gael, gyda'r opsiwn o arddangosfa gelf ategol. www.eoscollective.art/encounters

- **30 Ionawr – 1 Chwefror 2026:** Exodus 31 – Penwythnos i Gristnogion yn y Celfyddydau, Bryn y Groes, Bala (rhan o'r tîm cynllunio).

- **5 Chwefror (+ 5 Mawrth) + 2 Ebrill**: Gweithdai Golau Gras — cyfres o weithdai creadigol i ferched sy'n gwella o salwch meddwl, gyda Eglwys y Ffynnon, Llandysul.

- **27 Chwefror:** Cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi — digwyddiad efengylaidd gyda'r delynores Mared Emlyn yn fy eglwys yng Nghaerdydd.

- **7 Mawrth – 14 Mai:** Curadu a chynllunio Arddangosfa a Chynhadledd Agored **HADAU** ar y thema "Dal y Dyfodol", gydag Eglwys Urban Crofters a Morphe Arts Cymru. www.hadau.cymru

- **9–19 Mawrth:** Wythnos ymgyrch Eglwys Annibynnol Gwersyllt — gweithdai creadigol mewn ysgol, murlun cymunedol, a siarad mewn digwyddiadau efengylu.

- **27–28 Mawrth:** Mentora Gweithwyr Relay celfyddydol UCCF.

- **5 Ebrill:** Ymgyrch Greadigol gydag Eglwys Craig Blaenau, Blaenau Ffestiniog, yn ystod dathliad Pasg i'r gymuned.

- **11–17 Ebrill:** Arddangosfa Gelf Gymunedol ar thema'r Atgyfodiad gydag Eglwys Tanycoed, Llanrug.

- **24 Ebrill:** Arddangosfa Gelf "Encounters with Jesus" ochr yn ochr â'r cyngerdd — Malpas Road, Casnewydd (rhan o Gynhadledd Pathos, UCCF).

- **Mis Mai**: Murlun cymunedol posibl gyda'r gymuned ddigartref yn y Tabernacl, Caerdydd (i'w gadarnhau).

- **7–10 Mai 2026:** Cynhadledd Hutchmoot.

- **22–26 Mai 2026:** Ymgyrch greadigol yn ystod Gŵyl y Gelli gyda Eglwys Efengylaidd Bethesda.

- **12–13 Mehefin:** Mentora Gweithwyr Relay celfyddydol UCCF.

- **Gorffennaf:** Gwaith celf rhyngweithiol ar gyfer Rali Stêm Amwythig gydag Eglwys Efengylaidd Amwythig.

- **1–8 Awst 2026:** Ymgyrch yn ystod Eisteddfod Genedlaethol 2026.












